



Hysbysiad Newyddion

AC yn Cyfarfod Gweithwyr i Ddysgu Mwy am Ddarpar Fuddsoddiad o £100m

Penfro, 18 Ebrill 2017 – Ddydd Mawrth 18fed Ebrill, croesawodd staff ym Mhurfa Penfro Eluned Morgan, Aelod Cynulliad Rhanbarthol Llafur, lle dysgodd AC y Canolbarth a'r Gorllewin fwy am gynigion Valero i fuddsoddi £100 miliwn mewn Uned Gydgyhyrchu Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP).

Aeth AC y Canolbarth a'r Gorllewin yn un o fysiau mini'r safle ar gylchdaith o'r safle adeiladu arfaethedig lle bydd y cyfleuster yn cael ei leoli, ynghyd ag aelodau o arweinwyr y burfa a thîm y prosiect Uned Gwres a Phŵer Cyfunedig. Bydd y prosiect arfaethedig yn darparu pŵer i'r burfa yn ogystal ag atodi galw'r safle am ager, gan gynorthwyo unig burfa olew Cymru ac un o'r cyflogwyr rhanbarthol mwyaf i gynnal ei gallu cystadleuol byd-eang.

Yn dilyn cylchdaith o'r safle, treuliodd y Farwnes Morgan amser hefyd yn siarad â grŵp o aelodau benyw o staff Valero i drafod cyfleoedd i fenywod mewn diwydiant, a beth sydd i'w wneud i gael mwy o ferched i ddilyn pynciau cysylltiedig â GTPM yn yr ysgol.

Meddai Eluned Morgan, "Mae Valero'n aruthrol bwysig nid yn unig i economi Sir Benfro ond ledled Cymru. Mae'r cynigion hyn yn dangos gwir ymroddiad i'r gwaith ym Mhenfro, gan ddiogelu swyddi a chreu cynaliadwyedd i'r blynyddoedd a ddaw."

"Mae datblygu ein seilwaith a meithrin ein sail sgiliau'n hanfodol i ffyniant economi cefn gwlad yn y dyfodol. Mae'n drafodaeth a gaf gydag arweinwyr busnes ac academyddion wrth i ni weithio i greu cynllun economaidd newydd ar gyfer cefn gwlad Cymru. Rwy'n arbennig o falch bod Valero'n gwneud gymaint i gefnogi prentisiaethau a denu menywod i'r diwydiant."

Meddai Stephen Thornton, Rheolwr Materion Cyhoeddus Purfa Valero, "Mae cynlluniau arfaethedig Valero am Uned Gydgyhyrchu CHP ym Mhenfro'n bleidlais enfawr o ffydd yn y gweithlu yma yn y burfa, ac mae'n wych gallu rhannu ein cynlluniau'n fanylach gydag Eluned Morgan. Trwy wneud y burfa'n fwy cystadleuol gyda'n cymheiriaid byd-eang, bydd y prosiect hwn yn cynorthwyo cyflogaeth sicr yn sector puro Sir Benfro ac yn caniatáu i ni ddal i ddarparu cyfleoedd gwaith o safon, sy'n talu'n dda i bobl Sir Benfro, yn enwedig wrth i ni weithio i gefnogi swyddogaethau i fenywod mewn diwydiant."

Daw i ben.



Yn y llun: Eluned Morgan AC ym Mhurfa Valero Penfro